*This document is available in English* **Eitem ar yr Agenda 7**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Y Panel Gweithredol** |
| Dyddiad | **12/02/18** |
| Swyddog Arweiniol | **Prif Swyddog Cynorthwyol (Polisi a Pherfformiad Corfforaethol) Shân Morris** |
| Swyddog Cyswllt | **Cydlynydd Gwasanaethau Cefnogol Brian Mottershead** |
| Pwnc | **Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol yr Undeb Ewropeaidd (GDPR)** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Rhoi gwybod i'r Panel Gweithredol am gynllun gweithredu Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (ATAGC) i sicrhau cydymffurfiaeth â Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol yr Undeb Ewropeaidd (GDPR).

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Mae Rheoliad y GDPR yn dod i rym ar 25 Mai 2018, a bwriad yr rheoliad yw cryfhau ac uno'r maes diogelu data i bob unigolyn yn yr UE.

3 Bydd y Deyrnas Unedig yn dal yn aelod o'r UE pan ddaw'r Rheoliad i rym, felly bydd yn ofynnol iddi gydymffurfio â'r Rheoliad.

**ARGYMHELLION**

4 Nodi'r camau y mae GTAGC yn eu cymryd i gydymffurfio â'r Rheoliad.

**CEFNDIR**

5 Mae'r Rheoliad yn ffrwyth pedair blynedd o waith gan yr UE i godi safon deddfwriaeth diogelu data oherwydd bod ffyrdd newydd o ddefnyddio data yn bodoli erbyn hyn nad oedd modd eu rhagweld o'r blaen.

6 Ar hyn o bryd, mae'r UE yn dibynnu ar Ddeddf Diogelu Data 1998, ond bydd honno'n cael ei disodli gan y ddeddfwriaeth newydd. Bydd y ddeddfwriaeth newydd yn cyflwyno dirwyon llymach am beidio â chydymffurfio ac am dorri rheolau data, ac mae hi'n rhoi mwy o lais i bobl o ran yr hyn y gall sefydliadau wneud gyda'u data.

7 Mae'r Bil Diogelu Data, sydd newydd gael ei ddarlleniad cyntaf yn Nhŷ'r Cyffredin, yn ddarn o ddeddfwriaeth Brydeinig sy'n bwriadu ymgorffori gofynion Rheoliad y GDPR yng nghyfraith y Deyrnas Unedig. Unwaith y bydd y bil wedi'i basio, bydd yn gymorth i egluro'r rheoliadau ar gyfer diogelu data unwaith y bydd y DU yn gadael yr UE.

**GWYBODAETH**

8 Mae gofynion newydd a sylweddol y Rheoliad GDPR yn cynnwys:

a. Bod angen i awdurdodau lleol, o'r 25 Mai 2018 ymlaen, gael Swyddog Diogelu Data sy'n atebol i'r lefel uchel o reolwyr yn y sefydliad, sy'n gweithredu'n annibynnol, nad yw'n cael ei ddiystyru na'i gosbi am gyflawni ei dasg, ac sy'n cael adnoddau digonol i gyflawni ei rwymedigaethau dan Reoliad y GDPR.

b. Mae gofyn adrodd i'r awdurdod goruchwyliol (sef Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth) am unrhyw achos o dorri rheolau data personol, a hynny cyn pen 72 awr ar ôl dod yn ymwybodol o'r achos hwnnw. Bydd methu â rhoi gwybod am achos o dorri'r rheolau yn gallu arwain at ddirwy sydd hyd at €10 miliwn neu 2 y cant o'r trosiant.

c. Ymrwymiad cyffredinol i roi mesurau technegol a threfniadaethol ar waith i ddangos bod y sefydliad wedi ystyried ac integreiddio materion diogelu data yn ei weithgareddau prosesu, sef diogelu data drwy ddyluniad ac yn ddiofyn.

9 Mae Cynllun Gweithredu a Dogfen Dechrau Prosiect ar gyfer Rheoliad y GDPR wedi cael eu hadolygu a'u cymeradwyo gan y Grŵp Gweithredol. Sefydlwyd tîm prosiect o blith staff cyfredol GTAGC, gyda threfniadau ar gyfer adrodd yn rheolaidd a monitro cynnydd er mwyn sicrhau bod y cynllun yn cael ei gyflawni.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Ni chanfuwyd dim. |
| Cyllideb | Costau ychwanegol (nad oes modd eu mesur eto) yn deillio o'r gofyniad i gael Swyddog Diogelu Data erbyn 25 Mai 2018. Gwariant posibl ar fesurau technegol priodol i hwyluso cydymffurfiaeth. |
| Cyfreithiol | Gofyniad i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth newydd. |
| Staffio | Staff cyfredol yn aelodau o dîm prosiect ar gyfer cyflawni. Bydd yr effaith ar staffio yn dod yn gliriach unwaith y ceir penderfyniad ar y modd y bydd rôl y Swyddog Diogelu Data'n cael ei darparu. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Ni chanfuwyd dim. |
| Risgiau | Peidio â chydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol, dirwyon, niwed i enw da. |